# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
## 22 Tachwedd 2023

## Cofnodion

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Teitl** | **Sefydliad** |
| Y Cynghorydd Lis Burnett (LB) | Arweinydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Rob Thomas (RT) | Rheolwr Gyfarwyddwr | Cyngor Bro Morgannwg |
| Judith Cole (JC) | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau’r Gweithlu | Llywodraeth Cymru |
| Fiona Kinghorn (FK) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | BIP Caerdydd a’r Fro |
| Fiona Hourahine (FH) | Rheolwr Gweithrediadau Canol De Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| John Treherne (JT) | Rheolwr Grŵp | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH) | Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Cynrychiolydd | Cyngor Tref y Barri |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Helen Moses (HM) | Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Andreas Pieris-Plumley (APP) | Intern Strategaeth a Phartneriaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Sarah Tipping (ST) | Pennaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu | BIP Caerdydd a’r Fro |
| Benedicte Lepine (BL) | Rheolwr Polisi Diogelwch Cymunedol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Siân Griffiths (SG) | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus | BIP Caerdydd a’r Fro |
| Colin Cheesman (CC) | Ecolegydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Emily Shaw (ES) | Cydlynydd Partneriaeth Natur Leol | Cyngor Bro Morgannwg |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Eirian Evans (EE - GPC) | Pennaeth De Cymru Un | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Charles Janczewski (CJ) | Cadeirydd y BIP | BIP Caerdydd a’r Fro |
| Abigail Harris (AH) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio | BIP Caerdydd a’r Fro |
| Mark Brace (MB) | Comisiynydd Cynorthwyol | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Rachel Connor (RC) | Cyfarwyddwr Gweithredol | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg |
| Suzanne Rankin (SR) | Prif Weithredwr | BIP Caerdydd a’r Fro |
| Tom Bowring (TB) | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Cyngor Bro Morgannwg |
| David Letellier (DL) | Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Natalie Rees (NR) | Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd | Trafnidiaeth Cymru |

| Rhif | Eitem Agenda | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>**Croesawodd LB bawb i'r cyfarfod.** | |
| **2.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>**Gweler uchod** | |
| **3.** | **Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 20 Medi 2023**<br>**Cytunwyd bod y cofnodion yn rai cywir.** | |
| **4.** | **Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol**<br><br>Diolchodd BL i Iechyd y Cyhoedd am wneud gwaith tuag at yr asesiadau anghenion strategol ac eglurodd fod gwaith hefyd wedi digwydd gyda Chaerdydd ar gyfer yr asesiad anghenion gan gynhyrchu setiau data da ac i archwilio demograffeg. Mae eisoes yn bosibl gwneud llawer o'r gwaith sydd angen sylw brys drwy'r strwythurau partneriaeth presennol. Ni fu unrhyw bethau annisgwyl o ran yr ardaloedd o drais difrifol a nodwyd, ac mae patrolau ychwanegol wedi'u defnyddio yn yr ardaloedd hyn. Mae yna isadeiledd teledu cylch cyfyng newydd sydd wedi bod yn hanfodol wrth ymateb i drais difrifol. Bydd yna ymateb i drais yn erbyn aelodau staff gan fod hyn wedi'i nodi yn yr asesiad anghenion trais difrifol. Cyn bo hir, bydd dadansoddwr newydd yn dechrau gweithio i hyrwyddo gwaith y bartneriaeth o amgylch yr asesiadau anghenion strategol.<br><br>Eglurodd BL y bu datblygiadau o ran cyllid ar gyfer y bartneriaeth gyda'r cynllun cyflawni yn canolbwyntio ar waith yn ymwneud ag amrywio ffynonellau ariannu'r bartneriaeth oherwydd pwysau costau cynyddol. Llwyddodd y tîm i sicrhau cyllid ar gyfer rôl newydd i gyflawni a datblygu strategaeth ar gyfer y bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Cynllun Gwarchod Cymdogaeth. Mae ymgysylltu mwy â'r Cynllun Gwarchod Cymdogaeth yn bwysig gan eu bod yn cyfrannu llawer at rôl diogelwch cymunedol. Bu gwaith i gynyddu perthnasoedd â busnesau preifat yn y fro. Bu cais llwyddiannus i ariannu swyddogion diogelwch cymunedol sy'n gweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ganolbwyntio ar orfodaeth a gwaith ymgysylltu ochr yn ochr â Swyddogion Cymorth Cymunedol a swyddogion yr heddlu. Mae sicrhau cyllid strydoedd saffach wedi bod yn llwyddiant, a bydd hyn yn darparu gwytnwch i ariannu rhagor o swyddogion diogelwch cymunedol, teledu cylch cyfyng ychwanegol, a phwyntiau iechyd (un yn Ynys y Barri, un arall yn Broadstreet). Mae cyllid hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer offer gwella diogelwch.<br><br>Eglurodd BL eu bod yn gweithio ar ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc, gan edrych ar ailddechrau digwyddiad ieuenctid i gynnig gweithgaredd dargyfeiriol a chyfle i ymgysylltu â phobl ifanc.<br><br>Nododd BL y bydd strategaeth partneriaeth diogelwch cymunedol 2023-28 yn mynd i gabinet y Cyngor yn fuan. Roedd sawl newid o ganlyniad i gyfnod ymgynghori'r strategaeth, mae'r rhain yn cynnwys tynnu sylw at y dolenni i'r BGC, creu cynllun ar dudalen, a'r strategaeth yn dod yn un 5 mlynedd yn | **BL i anfon copi o'r llythyr i fasnachwyr at SH.** |

| | | |
|---|---|---|
| | lle'r 3 blynedd wreiddiol. Mae'r strategaeth yn manylu ar y blaenoriaethau a bydd cynlluniau gweithredu yn cyd-fynd â hi. Bydd y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig yn symud ymlaen â gwaith targedu grwpiau nad ydynt fel arfer yn cael eu cefnogi. Mae mannau diogel yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â Her Voice Wales, ac anfonwyd llythyrau at fasnachwyr i'w cynnwys.<br><br>Mae'r gwaith uwchraddio CCTV wedi'i gwblhau gyda'r holl gamerâu newydd yn fyw, ac mae gorsaf fonitro bellach hefyd yng ngorsaf heddlu'r Barri. Mae grŵp monitro CCTV gweithredol wedi'i sefydlu.<br><br>Nododd SH ei bod yn bwysig hefyd cael barn menywod hŷn yn ogystal â menywod ifanc a gofynnodd beth yw cynnwys y llythyrau at fasnachwyr am fannau diogel.<br><br>Eglurodd BL eu bod yn gweithio'n fewnol i ddatblygu strategaeth gyfathrebu i sicrhau yr ymgysylltir â phob grŵp. Mae'r grŵp cydlyniant cymunedol yn gweithio i gynyddu aelodaeth i helpu i gynrychioli pob grŵp mewn cymuned. Mae'r llythyr at fasnachwyr yn egluro beth yw'r cynllun mannau diogel a'r hyn y gobeithia ei gyflawni, mae'n siarad yn fras am yr hyn y mae'n ei olygu i gymryd rhan (sef y bydd pobl yn dod i'ch lleoliad am gyfnod byr os ydynt yn teimlo'n anniogel).<br><br>Esboniodd FK fod potensial i uno mecanweithiau ymgysylltu trwy wahanol ffrydiau gwaith y BGC e.e., sy'n dda i bobl hŷn. | |
| **5.** | **Partneriaeth Natur Leol, Cynllun Adfer Natur Leol**<br><br>Darparodd ES gefndir y Bartneriaeth Natur Leol, a sefydlwyd i warchod, amddiffyn a gwella bioamrywiaeth. Eu cenhadaeth yn y Fro yw ailgysylltu pobl o bob rhan o'r sir â byd natur. Mae dros 65 o sefydliadau a grwpiau sy'n aelodau o'r bartneriaeth, gyda ffocws cryf ar grwpiau cymunedol.<br><br>Eglurodd CC y bydd y cynllun gweithredu Adfer Natur Leol yn gynllun 15 mlynedd, ac mae'n seiliedig ar gynllun gweithredu adfer natur Cymru. Mae'r Cynllun wedi'i gyd-gynhyrchu gan y bartneriaeth natur, gyda phwyslais ar lawr gwlad ac ar gyflawni. Bydd y 5 mlynedd gyntaf yn rhai manwl, yn gweithio allan pwy sydd angen gwneud beth ynghyd â'r gost. Mae'r ddogfen yn costio gwaith a bydd yn cael ei diweddaru a'i newid bron yn flynyddol. Mae'n rhaid iddo fod yn addas i nifer o gynulleidfaoedd ac nid yw'n ddogfen gan y cyngor a bydd sefydliadau'n ymuno â'r cynllun i helpu i'w gyflawni, gydag adroddiadau blynyddol am gynnydd i'r bartneriaeth. Bydd y ddogfen yn parhau i fod yn gryno fel y gall pobl ei llywio'n hawdd, ac ni fydd yn gallu mynd i'r afael â phob problem felly bydd angen blaenoriaethu'r hyn sydd i'w wneud trwy edrych ar amserlenni, gyda'r cynllun wedi'i rannu'n dair adran 5 mlynedd. Mae geirfa helaeth wedi'i chynnwys ar gyfer y termau technegol a ddefnyddir.<br><br>Eglurodd CC fod grwpiau gorchwyl a gorffen arbenigol wedi'u sefydlu sydd wedi cynhyrchu setiau o gamau gweithredu. Mae i'r cynllun nifer o gamau: strategaeth a chyd-destun yn rhan 1, camau gweithredu fel rhan 2, | |

| | | |
|---|---|---|
| | llywodraethiant fel rhan 3, a chyfeiriadau yn rhan 4. Mae'r fersiwn PDF o'r cynllun yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd ynghyd â'r dudalen we. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei lansio'r flwyddyn nesaf ac yna bydd sefydliadau'n cael eu hannog i gofrestru ar gyfer y cynllun.<br><br>Esboniodd ES fod yr ymgynghoriad yn nodi rheoli glaswelltiroedd fel cam gweithredu. Mae llawer o waith yn cael ei wneud gyda phartneriaid i gyflawni hyn gan gynnwys gweithgor newydd lleiniau'r Fro. Maent yn cynnig grantiau bioamrywiaeth sydd wedi cynyddu mewn maint flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae manylion am waith y bartneriaeth yn cael eu rhannu ar-lein ar draws y cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr misol.<br><br>Canmolodd FH waith y bartneriaeth a chydnabu'r gefnogaeth barhaus o safbwynt CNC.<br><br>Adleisiodd FK ganmoliaeth FH i'r bartneriaeth. Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd eleni yn ymwneud â bioamrywiaeth ac iechyd. Gofynnodd FK a yw pobl ifanc wedi ymgysylltu â nhw ac wedi mynegi pryder y gallai cynllun sydd wedi'i gostio gyfyngu ar gyfle ac uchelgais.<br><br>Eglurodd ES fod pobl ifanc wedi ymgysylltu â nhw ac mae cyfleoedd wedi'u cynnig i ysgolion gymryd rhan. Maent wedi gweithio gyda grŵp sy'n canolbwyntio ar weithgareddau teuluol i gael pobl ifanc i gymryd rhan, ond mae mwy o waith gyda phobl ifanc i'w wneud.<br><br>Eglurodd CC fod y cynllun sydd wedi'i gostio wedi ystyried popeth ac yn parhau'n uchelgeisiol gyda dim yn cael ei ddiystyru ond trwy gostio camau gweithredu y gallant flaenoriaethu.<br><br>Eglurodd SH fod hwn yn waith perffaith i Gynghorau Tref a Chymuned (TCCs) a gofynnodd a oes strategaeth i ymgysylltu â nhw. Mae'r cynghorau tref a chymuned yn cynnig mwy o ddilyniant sy'n anodd weithiau i grwpiau cymunedol, a gallant hefyd ddarparu adnoddau ychwanegol.<br><br>Esboniodd ES eu bod wedi gweithio gyda rhai cynghorau yn barod ond mae cyfleoedd pellach, gan gynnwys creu strategaeth.<br><br>Eglurodd JT fod y Gwasanaethau Tân ac Achub wedi bod yn gysylltiedig â'r PNL ac wedi ymgysylltu â phlant ysgol lleol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu hirdymor. | |
| **6.** | **Cynnydd Gwaith Atal**<br><br>Cyflwynodd FK SG a'r gwaith o Gynyddu Gwaith Atal<br><br>Esboniodd SG<br>bod 3 maes blaenoriaeth:<br>*Imiwneiddiadau plentyndod* lle mae'r cyflawni wedi symud ymlaen gyda deunyddiau cyfathrebu newydd yn cael eu datblygu, a phrosiect peilot gydag ysgolion i gynnwys addysg imiwneiddio fel rhan o'r cwricwlwm. | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Sgrinio'r coluddyn* lle cafodd pob sgrinio i oedolion ei oedi yn ystod y pandemig, a lle nodwyd niferoedd isel yn manteisio mewn ardaloedd yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae'r gwaith cyflawni wedi symud ymlaen gyda chyfathrebu wedi'i dargedu i gyrraedd y nifer mwyaf posib, gweithio gyda chlystyrau cynradd a lle ceir y nifer isafy n manteisio, ac mae gwaith mewnwelediad wedi'i ddatblygu o ystod o ffynonellau.<br>Mae *Symud Mwy Bwyta'n Iach* (SMBI) wedi nodi nad yw dros hanner y boblogaeth oedolion o fewn pwysau sy'n iach, a dim ond 74% o blant sydd ar bwysau iach pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae problemau iechyd sy'n gysylltiedig â phwysau a lefelau is o gyrhaeddiad addysgol. Maent yn gweithio gydag ysgolion a gweithleoedd i gynyddu cyfleoedd i symud mwy a bwyta'n iach yn y lleoliadau hyn. Mae'r cynllun hysbysebu iachach yn cael ei ddatblygu a bydd cynllun SMBI yn cael ei adnewyddu ar ôl i'r cynllun presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2024.<br><br>Esboniodd SG fod Llywodraeth Cymru, o ran partneriaeth diogelu iechyd Caerdydd a'r Fro, eisiau i Awdurdodau Lleol ddatblygu timau amlddisgyblaethol diogelu iechyd lleol mewn partneriaeth â'r byrddau iechyd. Mae'r system ddiogelu iechyd integredig yn cael ei datblygu fel gwaddol i waith a wnaed yn ystod pandemig Covid-19. Mae cynllun diogelu iechyd Caerdydd a'r Fro yn datblygu i ddisgrifio'r system ddiogelu iechyd. | |
| **7**. | **Diweddariad ar Gynydd y Cynllun Llesiant**<br><br>- Gweithio gyda'n cymunedau lle ceir mwy o amddifadedd<br>- Mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a newid yn yr hinsawdd<br>- Bro sy'n Dda i Bobl Hŷn<br><br>Atgoffodd HM am yr amcanion llesiant sy'n fframio'r cynllun a'r tair ffrwd waith â blaenoriaeth. Mae yna hefyd 19 cam sy'n rhoi mwy o fanylion ar gyflawni'r amcanion a'r ffrydiau gwaith.<br><br>Eglurodd HM o ran Bro sy'n Dda i Bobl Hŷn, y sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi swyddog i arwain y gwaith hwn. Yn ddiweddar, dyfarnwyd statws da i bobl hŷn i'r Fro a gwahoddwyd y Swyddog Da i Bobl Hŷn i siarad mewn rhwydwaith byd-eang am y gwaith. Bu nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r fforwm 50+, ac mae trigolion hŷn hefyd wedi ymgysylltu â'r agenda hinsawdd. Mae gwaith wedi digwydd i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn bwrw ymlaen â siarter y BGC. Mae dros 100 o aelodau yn Rhwydwaith Da i Bobl Hŷn y Fro ar hyn o bryd.<br><br>Eglurodd EM fod gwaith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn datblygu gyda gweithiwr datblygu cymunedol yn y swydd ers mis Awst ac yn bwrw ymlaen â'r gwaith. Sefydlwyd grŵp llywio a chynhaliwyd gweithdy i ymgyfarwyddo partneriaid â'r ardaloedd a chwmpas y gwaith. Mae cyfarfodydd gyda chynghorwyr lleol, Cynghorau Tref a Chymuned, ysgolion, SCCHau, Bro Ddiogelach, tai, cyflogaeth, grwpiau lleol, y BGC a grwpiau cymunedol wedi cael eu cynnal i ddechrau mapio asedau.<br><br>Mae gwaith i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur hefyd wedi datblygu gydag is-grŵp argyfwng hinsawdd a rheoli asedau. Cynhaliwyd gweithdy | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ym mis Tachwedd a oedd yn trafod 5 o bwyntiau gweithredu allweddol yn y cynllun, ac mae llawer o waith wedi digwydd o fewn sefydliadau unigol gyda chynlluniau a strategaethau'n cael eu datblygu ond mae mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu a gweithio ar y cyd. Mae grant ACPW3 (Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau) gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i edrych ar brosiectau datgarboneiddio a bydd gwaith yn digwydd i archwilio cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo newid ymddygiadol. Mae CNC yn datblygu fframwaith i BGCau gynnal asesiadau risg newid hinsawdd. Eglurodd EM fod gwaith i gyflawni ein hymrwymiadau ni yn y Cynllun hefyd wedi datblygu. Mae'r Siarter Teithio Iach yn parhau i gael ei rhoi ar waith, mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r gwaith yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd a byd natur gyda digwyddiad ymgysylltu â sgwrs hinsawdd yn cael ei gynnal yn ddiweddar. Mae adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi digwydd, mae cynyddu gwaith atal ac SMBI wedi gweld cynnydd, mae Bwyd y Fro yn parhau i ddatblygu strategaeth fwyd, a gwnaed ymchwil i brosiectau tlodi bwyd presennol. Mae Diogelwch Cymunedol wedi datblygu gwaith gyda chyllid wedi'i sicrhau a strategaeth newydd, gwnaed dadansoddiad costau byw ac mae tudalennau gwe costau byw y cyngor wedi'u diweddaru'n ddiweddar. Mae gwaith Gwerth yn y Fro wedi symud ymlaen ond nid yw cyllid yn y dyfodol wedi ei gadarnhaul. Mae Arolwg Beth Am Siarad y Cyngor yn fyw a bydd uchafbwyntiau'r canlyniadau'n cael eu rhannu â phartneriaid. Mae gan sylfaen dystiolaeth y BGC ddata cyfredol ar gael ar wefan y BGC, ac mae cyfarfodydd cyfnewid y TCCs wedi parhau gyda ffrydiau gwaith wedi eu trafod yno. | |
| **8.** | **Diweddariad Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)**<br><br>Eglurodd RT y bydd cyfnod o ymgynghori ar strategaeth a ffefrir y CDLl o fis Rhagfyr/Ionawr am gyfnod o 8 wythnos. Mae dau gam gyda'r cam 1af i greu strategaeth a ffefrir sy'n gosod bwriad strategol ar gyfer y cynllun, a'r 2il gam os cytunir ar y strategaeth a ffefrir wedyn yn llunio'r cynllun o amgylch y strategaeth. Mae tua 8,000 yn fras o anheddau newydd yn y Fro, yn bennaf ar draws y Barri, Sain Tathan, y Rhws, a'r coridor ar hyd yr arfordir. Bydd yn edrych ar safleoedd strategol allweddol sy'n cael eu datblygu, gyda gorsaf reilffordd newydd yn Sain Tathan i gysylltu â'r datblygiad tai newydd, ond nid yw'n nodi lle bydd y safleoedd llai. Mae hyn yn berthnasol i'r BGC wrth i bartneriaid gynllunio eu darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Diolchodd FK i Gyngor y Fro am y broses sydd wedi cynnwys partneriaid.<br><br>Gofynnodd SH a yw'r safleoedd strategaeth allweddol yn cael eu dewis gan ddatblygwyr, sut mae'r strategaeth yn cael ei datblygu a sut mae yr hinsawdd yn cael ei ystyried.<br><br>Esboniodd RT ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gyhoeddi galwad am safleoedd a rhoi cyhoeddusrwydd i gynllun datblygu newydd lle gall unrhyw un gyflwyno safleoedd i'w hystyried. Mae yna lawer o gwmnïau datblygu sy'n cyflwyno safleoedd, mae'r Cyngor wedyn yn ystyried pob cynnig o safle ac yn penderfynu pa rai yw'r mwyaf priodol gan asesu pob safle yn erbyn meini prawf cyfreithiol e.e. cynaliadwyedd. Nid yw safleoedd llai chwaith wedi'u cynnwys fel y safleoedd strategol ond byddant yn cael eu hystyried yn ddiweddarach o ran y cynllun. | |

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **Blaenraglen Waith 2023**<br><br>Eglurodd EM fod y ddogfen yn amlygu'r holl waith eleni yn ogystal â rhai o'r ffrydiau gwaith a fydd yn cael eu trafod y flwyddyn nesaf. Bydd y rhaglen yn cael ei datblygu ymhellach ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gofynnodd EM i bartneriaid roi gwybod iddi am eitemau ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |
| **10**. | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Dim materion eraill. | |
| **11.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 31 Ionawr 2024** | |